Datganiad Ysgol y Gymraeg ar Fonitro Moeseg Ymchwil

Y Swyddog Monitro

Y Swyddog Monitro fydd Swyddog Moeseg Ymchwil yr Ysgol, yr Athro Colin H. Williams.

Y Broses Fonitro

Bydd prosiectau ymchwil a nodir yn rhai moeseg ymchwil sensitif gan Fwrdd yr Ysgol yn cael eu monitro yn unol â gweithdrefnau a chanllawiau Moeseg Ymchwil yr Ysgol fel a ganlyn:

Staff

Yn achos prosiectau ymchwil staff, bydd y prif ymchwilydd, ar ôl cwblhau'r prosiect neu bob 6 mis – pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf, yn darparu datganiad i'r Swyddog Monitro yn cadarnhau bod y gwaith ymchwil yn cael ei wneud neu wedi ei wneud yn unol â'r gweithdrefnau moesegol a osodwyd gerbron yn y prosiect FEL y' i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Ysgol. Cefnogir y datganiad hwn gan ddogfennaeth berthnasol, megis copïau o ffurflenni cydsynio.

Myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig

Yn achos myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, bydd y myfyriwr ymchwil, mewn ymgynghoriad â'u goruchwyliwr/goruchwylwyr ymchwil, ar ôl cwblhau'r prosiect neu bob 6 mis – pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf, yn darparu datganiad i'r Swyddog Monitro yn cadarnhau bod y gwaith ymchwil yn cael ei wneud neu wedi ei wneud yn unol â'r gweithdrefnau moesegol a osodwyd gerbron yn y prosiect a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ysgol. Cefnogir y datganiad hwn gan ddogfenaeth berthnasol, megis copïau o ffurflenni cydsynio.

Myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir ac israddedigion

Yn achos myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir ac israddedigion, bydd y myfyriwr, mewn ymgynghoriad â'i diwtor(iaid), ar ôl cwblhau'r prosiect neu bob 6 mis – pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf, yn darparu datganiad i'r Swyddog Monitro yn cadarnhau bod y gwaith ymchwil yn cael ei wneud neu wedi ei wneud yn unol â'r gweithdrefnau moesegol a osodwyd gerbron yn y prosiect fel y'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Ysgol. Cefnogir y datganiad hwn gan ddogfennaeth berthnasol, megis copïau o ffurflenni cydsynio.

Dogfennaeth Gefnogol

Ym mhob achos bydd y datganiadau a'r ddogfennaeth gefnogol yn cael eu cyflwyno I Fwrdd yr Ysgol gan y Swyddog Monitro i gael sylwadau.

Materion o Bryder

Os bydd Bwrdd yr Ysgol yn nodi materion o bryder parthed cydymffurfio yna bydd Bwrdd yr Ysgol yn hysbysu'r ymchwilydd perthnasol am y cyfryw bryderon yn ysgrifenedig oddi mewn i 1 diwrnod gwaith o gyfarfod Bwrdd yr Ysgol. Bydd disgwyl i'r ymchwilydd perthnasol ymateb i'r pryderon a nodir yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro cyn pen 4 diwrnod gwaith i gael y pryderon a nodwyd. Os bydd y Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â Bwrdd yr Ysgol, yn fodlon ar yr ymateb yna ni chymerir unrhyw gamau pellach. Os bydd y pryderon yn dal heb eu datrys yna bydd y Swyddog Monitro, drwy Fwrdd yr Ysgol ac yn unol â'r cylch gorchwyl sy'n perthyn i Fwrdd yr Ysgol, â'r gwaith o nodi anfodlonrwydd Bwrdd yr Ysgol a phryd hynny caiff y mater ei gyfeirio at Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol.

Adrodd

Adroddir ar fonitro moeseg ymchwil yn Adroddiad Blynyddol yr Ysgol ar gynnal

moeseg ymchwil.

Y Swyddog Monitro fel Ymchwilydd

Pan gyfyd yr achos mai'r Swyddog Monitro ei hun yw'r prif ymchwilydd, y goruchwyliwr, neu'r tiwtor, fel y'u nodir bob un uchod, yna ysgwyddir swyddogaethau'r Swyddog Monitro gan naill ai Bennaeth yr Ysgol neu Gadeirydd y Bwrdd yr Ysgol, yn ôl doethineb Bwrdd yr Ysgol.